

# Y Rhaglen Datblygu Organig: trefnir gan Ganolfan Organig Cymru yn cyflawni ar ran Cyswllt Ffermio



## Uchafu bwyd o'r maes: Defnyddio cnydau gorchudd

### Deietau dofednod a bwyd adar organig

Mae dofednod yn arbennig o sensitif i ansawdd eu deiet ac mae eu hanghenion yn rhai penodol iawn o ran asidau amino hanfodol, yn enwedig lysin a methionin. Mewn systemau organig mae'r rhain yn cael eu cyflenwi'n bennaf o soia organig sy'n cael ei fewnforio, mae'n anodd cael hyd iddo ac mae bob amser yn ddrud.

Cynhyrchu cymaint o fwyd o'r fferm ag sy'n bosibl yw un o brif egwyddorion systemau organig. Fodd bynnag, oherwydd yr anawsterau wrth baratoi dogn sydd wedi'i fantoli'n ofalus a chynhyrchu digonedd o brotein uchel ei ansawdd, bydd y rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn dibynnu'n drwm ar borthiant sydd wedi'i brynu. Sonir o hyd am bris uchel porthiant sy'n cael ei brynu fel y broblem fwyaf sy'n wynebu cynhyrchwyr dofednod organig – sefyllfa na fydd yn gwella pan fydd y rhanddirymiad i ddefnyddio hyd at 5% cynhwysion anorganig yn cael ei ddiddymu'n raddol ar ddiwedd 2011.

Am y rhesymau hyn, ceir diddordeb cynyddol mewn defnyddio porthiant a dyfir gartref. Yn aml, gall y cynhwysion grawn, megis gwenith, rhygwenith a cheirch, gael eu tyfu ar y fferm, weithiau ar y cyd â chnwd protein megis pys. Gellir un ai eu melino a'u cymysgu â chydbwysydd protein, ynteu eu bwydo fel grawn cyflawn. Gall y maes hefyd, wneud cyfraniad sylweddol i fwydo'r adar, a chynyddu'r cyfraniad fu ffocws prosiect bach a ariennir trwy Raglen Datblygu Organig Cyswllt Ffermio.

### Defnyddio cnydau gorchudd

Un o'r ffyrdd y gellir cyfoethogi'r maes yw trwy hau llain â chnwd gorchudd. Yn ddelfrydol, dylent gael eu tyfu mewn lleiniau gyda ¼ erw i bob 200 o adar ac wedi'u gosod rhwng rhesi o goed sydd â digon o ofod rhyngddynt. Hen arferiad ymysg ciperaid adar helwriaeth yw hwn, ond heb ei fabwysiadu'n eang gan gynhyrchwyr dofednod.

Buom yn hau cnydau yng Nghanolfan Dofednod Cymru (CDC) yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghoedwig Esgair, safle coetir ger Machynlleth. Roedd cymysgedd yr hadau, a ddarparwyd gan *King's Seeds*, yn cynnwys dau fath o blanhigion:

- Planhigion â hadau gan gynnwys cwinoa, millet gwyn, ruddygl porthiant, rhygwenith a chêl
- Planhigion i ddenu pryfed ar y maes, sy'n ffynhonnell brotein bwysig. Roedd y planhigion hynny'n cynnwys meillion gwyn, meillion coch, pys-y-ceirw, pupys a ffacelia.

Tyfodd y cnwd yng Nghanolfan Dofednod Cymru'n dda, gan roi cnwd had da, ac, er na fesurwyd poblogaethau penodol gennym, ddigonedd o bryfed. Fodd bynnag, roedd y cnwd yn rhy ddwys a bu'n rhaid i ni droedio llwybrau i'r lleiniau er mwyn i'r adar gael treiddio'r cnwd. Efallai y bydd torri'r cnwd yn ddarnau bach gwasgaredig yn hytrach na lliain hir ddi-dor hefyd yn gwella sut maent yn rhodio'r maes a'u mynediad i'r cnwd.

Ni fu'r planhigion mor llwyddiannus wrth ymsefydlu yng Nghoedwig Esgair. Mae'n debyg bod hyn o ganlyniad i ffrwythlondeb isel y pridd a hefyd pH isel o ganlyniad i'r tir fod o dan gonwydd. Fodd bynnag, efallai y bydd defnyddio calch yn 2010 yn gwella'r amodau i gnydau yn y dyfodol.



## Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif J1 - Chwefror 2011

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Sefydlwyd tair haid fach yn cynnwys tua 20 o adar Sassie gennym ar y ddau safle, pob un â gwahanol drefn fwydo fel a ddisgrifir yn Nhabl 1. Bu ymgais i wneud yr heidiau mor gymharus â phosibl trwy ddefnyddio adar o'r un batsh o gywion diwrnod oed, trwy ddefnyddio'r un porthiant a thrwy eu lladd ar yr un pryd

Cofnodwyd costau a phwysau wrth ladd a chyfrifwyd y ffiniau gros i bob haid.

**Tabl 1: Priodoleddau'r heidiau**

Lleoliad	Nifer yr adar	Y Drefn Fwydo
Coedwig Esgair	20	Mynediad heb gyfyngiadau i borthiant wedi'i brynu. Mynediad i gnydau gorchudd ar y maes
Canolfan Dofednod Cymru	20	Mynediad cyfyngedig i borthiant wedi'i brynu (80% o'r dogn arferol a mynediad i gnydau gorchudd ar y maes.
Canolfan Dofednod Cymru	26	Mynediad fel y mynnont i borthiant wedi'i brynu. Dim mynediad i gnydau ar y maes

### Perfformiad yr Heidiau

O ran y ffiniau gros (FfG) (Tabl 2), bu'r haid *ad lib* yng Nghanolfan Dofednod Cymru'n perfformio orau (£6.27 yr aderyn). Yn ail oedd haid y Ganolfan a oedd â mynediad i gnydau gorchudd (£4.87) a ddilynwyd gan haid yr Esgair ar £3.38.

Yng Nghoedwig Esgair, y cyfrannwr mwyaf i'r FfG isel oedd y gyfradd ysglyfaethu gyda bron i 50% o'r haid yn cael eu cipio. Bu'n rhaid talu costau sylweddol ar yr adar a ysglyfaethwyd arnynt cyn iddynt gael eu cipio - costau nad oedd yn cael eu hadennill wedyn. Byddai lleihau'r gyfradd ysglyfaethu i 25%, er enghraifft, yn cynyddu'r ffin i £4.30.

Yn rhannol gellir priodoli'r ffiniau gros is a gafodd haid y Ganolfan Dofednod a oedd â mynediad i gnydau gorchudd, o'u cymharu â'u cymheiriaid a fwydai fel y mynnont, i'r tywydd. Yn ystod pythefnos olaf bywyd yr adar, y cyfnod pryd y byddant yn magu'r rhan fwyaf o'u cig, golygai amodau tywydd oer iawn fod yr adar yn rhodio'r maes yn llai aml o lawer, ac felly ni fuont yn treulio fawr o amser yn y cnwd gorchudd. Arweiniodd hy at bwysau lladd is ac felly mewnbwn is. Pe bai'r adar yn cael eu dal yn ôl nes iddynt gyrraedd 2.2kg (gan ragdybio cynnydd cyfrannol yn y bwyd a brynir y byddai'n cael ei ddefnyddio), byddai'r FfG yn cynyddu i £7.22. Gellid hefyd fod wedi cynyddu cyfraniad y cnwd gorchudd pe bai'r adar yn cael eu cyflwyno i'r cnwd yn gynt yn eu bywydau, gan ddysgu felly sut i'w ddefnyddio (h.y. yn ystod y cyfnod deor).

### Casgliadau

Am y rhesymau a drafodwyd uchod, ni allem ddangos y lleihad yng nghostau'r porthiant na'r cynnydd yn y perfformiad ariannol roeddem yn gobeithio amdano yn y prawf arbennig hwn. Fodd bynnag, rydym wedi dysgu rhai gwersi pwysig, ac os eir i'r afael â rhai materion allweddol, rydym o hyd o'r farn y gallai cnydau gorchudd chwarae rhan bwysig wrth leihau dibyniaeth ar fwyd sydd wedi'i brynu. Rydym yn gobeithio gwneud gwaith pellach eleni (2011), gan gymryd y canlynol i ystyriaeth.

Dylid lleihau cyfradd yr hadau fel y gall yr adar bori'n well yn y cnwd gorchudd

- Mae darnau bach o gnwd gorchudd yn britho'r maes yn well na llain unigol, o ran annog yr adar i rodio'r maes a gwella'r modd y defnyddir y cnwd.
- Dylid cyflwyno'r adar i'r cnwd gorchudd cyn gynted ag y bo modd.
- Gall cyfraddau twf fod yn is mewn heidiau sy'n dibynnu'n fwy ar y maes am fwyd, ond gallai costau is wneud iawn am hyn.
- Byddwch yn elwa fwyaf o'r cnwd gorchudd ym misoedd yr haf. Pan fydd mynediad i'r maes wedi'i gyfyngu yn ystod pyliau oer yn y gaeaf, bydd yn rhaid i chi ddarparu mwy o borthiant wedi'i brynu er mwyn cynnal y cyfraddau twf.



Os hoffech gyfranogi o waith yn y maes hwn yn y dyfodol, cysylltwch â Tony Little, Canolfan Organig Cymru, 01970 621632

**Tabl 2 Cyfrifiadau Ffin Gros**

	Esgair	CDC (Cnwd gorchudd)	CDC (Dim cnwd gorchudd)
<b>Allbwn</b>			
<b>Maint yr haid (Gwreiddiol)</b>	20	20	26
<b>Maint yr haid (yn goroesi)</b>	11	19	26
Pwysau Marw (Haid)	25.96	32.00	59.62
Pwysau marw ar gyfartaledd (Kg y pen)	2.36	1.68	2.29
Pris (£5.00/ kg)	129.80	160.00	298.10
Llai cost y cywion @ 75c y cyw	-15.00	-15.00	-19.50
<b>Cyfanswm yr Allbwn</b>	114.80	145.00	278.60
Bwyd dechrau 1kg / aderyn @ 350/t	7.00	7.00	9.10
Bwyd gorffen @ £280/t	45.00	10.64	72.80
Sefydlu cnwd gorchudd	10.00	10.00	0.00
Gwres @ 0.15/aderyn	3.00	3.00	3.90
Gwellt a blawd llif/aderyn @0.1/aderyn	1.10	1.90	2.60
Costau lladd a thrin, @ £1/aderyn	11.00	19.00	26.00
Amryw @ 5c yr aderyn	0.55	0.95	1.30
<b>Cyfanswm y Costau Amrywiadol</b>	77.65	52.49	115.70
<b>Ffin Gros / Haid</b>	<b>37.15</b>	<b>92.51</b>	<b>162.90</b>
<b>Ffin Gros yr aderyn</b>	<b>3.38</b>	<b>4.87</b>	<b>6.27</b>